| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | • Trafodaeth Gymraeg yn seiliedig ar fideo am Arddangosfa Dylan Thomas yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Disgrifiad: | • Gwylio fideo, dangos dealltwriaeth drwy drafod, dangos sgiliau trawsieithu |
| Grŵp blwyddyn: | • CA3 uchaf |
| Adnoddau sydd eu hangen: | Fideo arddangosfa Dylan Thomas - https://www.youtube.com/watch?v=Pmk8CN95en4 (2:06 munud) |
| Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Llythrennedd - Llafaredd<br>Gwrando<br>• ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd.. |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Esbonio bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cyflwyno arddangosfa'n seiliedig ar fywyd Dylan Thomas ym mlwyddyn canmlwyddiant ei eni (2014).<br>• Gwyliwch y fideo gymaint o weithiau ag sydd angen i'r dysgwyr wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth.<br>• Cwestiynau i'w trafod:<br>• Pa argraff gewch chi o'r arddangosfa? Ceisiwch gael sylwadau am y goleuo, ei maint, y gofod, ac ati.<br>• Ydy arddangosfa'n gallu newid eich barn/canfyddiad am ei thestun? (Gall fod yn arddangosfa o waith arlunydd, am ffigwr llenyddol, cyfnod hanesyddol ac ati)<br>• Pa dystiolaeth sydd yn y fideo o:<br>a) Rhywun yn newid eu barn am Dylan Thomas?<br>b) Y gymuned yn cymryd rhan yn yr arddangosfa?<br>c) Sefydliadau'n cydweithio â'i gilydd?<br>d) Sicrhau y bydd hi'n dal yn bosib gweld yr eitemau yn yr arddangosfa ar ôl i'r arddangosfa 'go iawn' gau?<br>• Pa arddangosfeydd eraill rydych chi wedi'u gweld? Ble? Pryd? Beth oedd eich barn? |
| Gweithgareddau estyn: | Gweithgaredd darllen a siarad yn seiliedig ar y we:<br>• Trefnwch barau i edrych ar eitemau penodol yn yr arddangosfa ar-lein http://dylan.llgc.org.uk/?lang=cy . Dylent ddarllen y deunydd cefndir Cymraeg am yr eitem a chyflwyno’r eitem ar lafar i weddill y dosbarth. |